Adroddiad ar

Gylch Meithrin Pentraeth

Ysgol Gymuned Pentraeth
Pentraeth
Ynys Môn
LL75 8UP

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Pentraeth

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Pentraeth |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dawn Hughes a Meriel Catrin Regan |
| Person â gofal | Dawn Hughes |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Ystod oedran y plant | 2 mlwydd oed – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 6 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Iau 8.50 – 12.50 – 1.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Cofrestrwyd y gwasanaeth 14eg Hydref 2024. Arolygiad cyntaf ers ailgofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 27/06/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/03/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Cefnogi'r plant i ymateb yn gynyddol yn y Gymraeg drwy ddefnyddio geirfa gyfarwydd a phatrymau syml

A2 Mireinio a chysoni cofnodion goruchwylio ymarferwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan y plant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser a ble maent am chwarae yn gyson, gan ddefnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored mewn modd effeithiol a chreadigol. Mae bron bob plentyn yn hollol gyfarwydd â threfniadau’r diwrnod. Er enghraifft, maent yn gwybod bod angen tacluso’r ardal chwarae cyn diwedd y sesiwn.

Mae bron bob plentyn yn teimlo’n hapus yn y lleoliad ac yn ymgartrefu’n dda yno. Maent yn ymdopi’n llwyddiannus wrth adael eu rhieni a’u gofalwyr, ac yn amlwg yn teimlo’n ddiogel. Maent yn cael croeso cynnes wrth gyrraedd, ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a’r ymarferwyr wrth gyfarch ei gilydd. Mae'r plant yn meithrin perthnasoedd cynnes ac agos ag ymarferwyr ac yn gwybod y gallant sôn wrthynt am yr hyn y maent ei eisiau, ac yn gwybod at bwy i droi os yn teimlo’n anhapus neu’n poeni am rhywbeth. Maent yn dangos hoffter amlwg tuag atynt gan fynd yn hapus a chyfforddus i’w gwahodd i ymuno yn eu chwarae neu i ddangos yr hyn maent wedi cyflawni. Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio’n gadarnhaol â’i gilydd, a gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn datblygu eu medrau cymdeithasol trwy siarad a thrafod â’i gilydd wrth chwarae yn llwyddainnus. Mae plant yn cydweithredu ac yn rhyngweithio’n frwdfrydig wrth chwarae rôl. Er enghraifft, maent yn defnyddio’u dychymyg ac yn gwneud synnwyr o’u byd wrth esgus golchi llestri a lapio rhwymyn ar fraich dol.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau’n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio’n hapus tu allan i lenwi bwced â thywod i greu castell.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, ac yn chwilfrydig, er enghraifft wrth blannu hadau cennin tu allan. Maent yn hyderus wrth symud o un gweithgaredd i’r llall, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, wrth edafu grawnfwyd ar linyn i greu bwyd i’r adar.

Mae’r plant yn mwynhau cyfleoedd chwarae rhydd tu mewn a thu allan. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth da iawn, er enghraifft wrth wisgo esgidiau glaw, yn ogystal ag arllwys llaeth a dŵr o’r jwg i’w cwpanau. Mae bron bob plentyn yn defnyddio gefel bwyd yn effeithiol amser byrbryd i ddewis ffrwyth. Maent yn defnyddio’r tŷ bach yn hyderus, ac yn golchi a sychu eu dwylo yn briodol fel rhan o’u harferion dyddiol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair a phedair oed a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn cael addysg a ariennir yn rhywle arall i adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn gweithredu gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac maent yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Maent yn cadw cofrestrau presenoldeb cywir a llyfr ymwelwyr. Mae gan bob ymarferydd dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol ac yn dilyn gweithdrefnau cadarn, gan gadw cofnod wrth ddelio ag unrhyw ddamweiniau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach yn bwrpasol trwy ddarparu byrbryd iachus a maethlon a chynnig llaeth neu ddŵr i'r plant. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau bwyd. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol. Maent yn gweithredu prosesau cadarn er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd ac yn dilyn arferion effeithiol wrth drin bwyd a newid cewynnau.

Mae ymarferwyr wedi ffurfio ac adeiladu perthnasoedd agos a naturiol â'r plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod plant yn gartrefol ac yn hapus, gan ddilyn eu diddordebau a'u syniadau wrth gynllunio gweithgareddau, er enghraifft gweithgaredd adeiladu nyth o frigau ar ôl trafod nythod yn y coed. Mae ymarferwyr yn siarad yn dyner, ac yn trin plant gyda gofal a pharch. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson gan roi clod ar lafar, er enghraifft wrth i blentyn ysgrifennu ei enw yn annibynnol. Mae ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn eu cefnogi i ddewis a dethol gweithgareddau ac adnoddau eu hunain tu mewn a thu allan. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd cyson a buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae cynlluniau effeithiol i'w cefnogi er mwyn ymateb i'w hanghenion yn fwriadus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio iaith arwyddo a chardiau fflach gweledol yn fedrus er mwyn meithrin medrau cyfathrebu plant sydd ag anghenion ieithyddol. Mae ymarferwyr yn

cydweithio'n agos a llwyddiannus ag ystod o asiantaethau er lles y plant. Rhennir gwybodaeth yn gyson â rhieni drwy sgyrsiau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau, yn ôl yr angen.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio a darparu ystod eang o brofiadau dysgu amrywiol sy'n diwallu anghenion bron bob plentyn yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac yn sicrhau amrediad eang o adnoddau sy'n sbarduno dychymyg plant yn gyson. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu gweithgareddau sy'n ymateb i'w hanghenion yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o'r ffordd mae plant yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu ysgogol sy'n annog plant i ddatblygu'n archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd, er enghraifft trwy hongian bwyd ar frigau i adar a phlannu bylbiau blodau yn yr ardd tu allan. Mae'r profiadau hyn yn cryfhau dealltwriaeth plant o'r byd maent yn byw ynddo a sut i drin eu hamgylchedd â gofal a pharch.

Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd eang i blant greu marciau cynnar mewn amrywiaeth o ardaloedd tu mewn a thu allan. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu cynnar bron pob un o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn darparu cyfleoedd cyson i blant ymuno â chaneuon rhif lle caiff blant ddewis eu hoff gân. Mae ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn glir, gan ddefnyddio geirfa a phatrymau cyfarwydd wrth sgwrsio â phlant. Er hyn, nid ydynt bob tro'n cefnogi'r plant i ymateb yn gynyddol yn y Gymraeg drwy ddefnyddio geirfa gyfarwydd a phatrymau syml

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant yn effeithiol. Er enghraifft, rhoddir cyfleoedd buddiol i blant gyfrif sawl petal sydd gan y cennin pedr a sawl llond rhaw o dywod sydd eu hangen i lenwi bwced. Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau sy'n datblygu medrau digidol y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn recordio geiriau a chaneuon ar begiau siarad sy'n cefnogi'r plant i glywed geirfa newydd yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau creadigol plant trwy ddarparu amrywiaeth o bensiliau a phaent i greu lluniau o gennin pedr a chestyll Cymreig. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol, ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau corfforol yn briodol. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad o adnoddau pwrpasol sy'n annog plant i ymarfer eu medrau cydbwyso

corfforol yn effeithiol. Maent yn cynllunio gweithgareddau buddiol sy’n hybu medrau modur mân, er enghraifft trwy reoli ystod o offer amrywiol er mwyn gwneud marciau.

Mae gweithdrefnau asesu yn gadarn ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i nodi'r camau nesaf yn natblygiad plant. Mae'r rhain yn cael eu rhannu gyda chydweithwyr a rhieni yn gyson, gan sicrhau dull cydweithredol o gefnogi cynnydd pob plentyn. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus.

### Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd o ansawdd da sy’n groesawgar a chynnes gyda digon o le i blant chwarae a symud o gwmpas gyda rhwyddineb. Ceir arddangosfeydd o waith celf y plant ynghyd â ffotograffau ohonynt mewn fframiau. Mae hyn yn cyfrannu at yr ymdeimlad o berthyn yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt amrywiaeth eang o ddodrefn a chyfarpar o ansawdd da, sy'n addas ar gyfer oedran y plant. O ganlyniad, mae gan blant fynediad rhwydd at ystod o adnoddau sy’n eu galluogi i wneud dewisiadau’n annibynnol a dilyn eu diddordebau. Mae’r adnoddau’n lân ac mewn cyflwr da, ac mae’r ardaloedd chwarae a’r offer yn cael eu glanhau’n rheolaidd.

Mae arweinwyr yn cynnal ymarferion tân er mwyn i’r plant ymgyfarwyddo â’r trefniadau i’w dilyn pe byddai argyfwng. Mae cofnodion cynnal a chadw’r lleoliad yn gyfredol ac mae offer diogelu’r amgylchedd yn cael ei wasanaethu’n rheolaidd. O ganlyniad, mae arweinwyr yn hybu diogelwch a llesiant plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch, fel yswiriant dilys, yn eu lle. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i’r adeilad ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda er mwyn sicrhau eu diogelwch. Maent yn gweithredu ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr yn effeithiol ac yn asesu risgiau yn dda.

Mae adnoddau pwrpasol ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ac o ddiwylliannau gwahanol, gan gynnwys llyfrau, doliau, gwisgoedd a chymeriadau plastig. Mae ymarferwyr yn cynnig gweithgareddau o bryd i’w gilydd i hybu dealltwriaeth y plant bod gwahaniaethau yn perthyn i’r byd o’u cwmpas.

Mae arweinwyr yn sicrhau ardal allanol effeithiol sy’n cynnig ystod eang o adnoddau ac offer pwrpasol. Mae plant yn elwa o gael mynediad dyddiol i ardal sy’n hyrwyddo eu chwilfrydedd a chynnig cyfleoedd addas iddynt arbrofi gyda thywod a chwarae gyda photeli chwistrell paent, er enghraifft. Maent yn sicrhau amgylchedd caeëdig a diogel tu allan.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant ac maent yn rhannu eu gweledigaeth yn glir gyda'r holl randdeiliaid. Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i greu awyrgylch gofalgar a chartrefol Cymreig, lle mae ymarferwyr a phlant yn cael eu parchu. Maent wedi adeiladu tîm sy'n cydweithio'n effeithiol er mwyn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod prosesau recriwtio cadarn yn cael eu gweithredu a bod ganddynt wiriadau perthnasol cyn i ymarferwyr newydd ddechrau yn y lleoliad. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn rhoi gwybodaeth berthnasol am waith y lleoliad a beth maent yn ei gynnig. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyfathrebu'n dda; o ganlyniad, mae'r lleoliad yn rhedeg yn effeithiol. Mae ganddynt drefniadau priodol ar waith i gynnal cyfarfodydd goruchwylio gydag ymarferwyr; fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth addas o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r amserlen benodedig. Maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn fedrus a thrwyadl.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r lleoliad yn canolbwyntio'n effeithiol ar amrediad eang o dystiolaeth a mewnbwn yr holl randdeiliaid. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn briodol ac yn cydweithio'n dda er mwyn gwneud gwelliannau synhwyrol i'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o grantiau i archebu adnoddau i hybu medrau'r plant, er enghraifft trwy archebu adnoddau megis rhubanau a bwrdd cydbwyso i hybu medrau corfforol y plant.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gref â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw er lles a datblygiad y plant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn modd effeithiol i hysbysu rhieni a gofalwyr o ddigwyddiadau a datblygiadau perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth gyfredol fuddiol am gynnydd a lles eu plant.

Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda swyddogion cefnogi'r awdurdod lleol i gynnal a datblygu ansawdd y ddarpariaeth. Mae ganddynt gysylltiad da â'r ysgol leol a threfniadau trosglwyddo cadarn. Mae eu cysylltiadau â busnesau lleol yn cael effaith fuddiol ar y ddarpariaeth.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2026